

**Mai
2012**

Llais Yr Andes

Papur Cymraeg Trevelin ac Esgwel

I ddod...

Noson i'r Ifanc

***Gwasanaeth
Capel Bethel***

***Noson Gyri
Trevelin***

***Perfformiad y
Clwb Drama***

***Gwasanaeth
Capel Seion***



Cystadleuaeth

Atebwch y cwestiynau hyn, a dychwelwch yr atebion i Iwan Madog ar ddarn o bapur erbyn 22/06/2012, ac mae siawns i un ohonoch ennill gwobr arben-nig

1. Pa flwyddyn aeth Jessica i Gymru am yr ail dro?
2. Pryd mae rhaglen radio Joyce?
3. Pwy ysgrifennodd 'Hunllef'?

Mae'r holl atebion yn y rhifyn yma

Mae llawer o bethau diddorol yn y rhifyn diweddaraf o Llais Yr Andes. Yn y rhifyn hwn mae cyfle i weld ambell beth sydd wedi digwydd yng Nghwm Hyfryd, dod i adnabod ambell berson yn well, rhywbeth i'r plant, croesair a sudoku a chystadlaethau i'r plant ac oedolion.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn yma - heboch chi byddai dim ond tudalennau gwag. Gobeithio bydd pawb yn mwynhau darllen erthyglau mae pobl wedi ei gyrru, cymaint a gwnes i.

Os hoffech gyfrannu at y rhifyn nesaf fydd allan cyn y gwyliau gyrrwch rhywbeth ataf cyn 22ain o fis Mehefin.

Gweithgareddau Menter

Sushi gyda'r ifanc



Un nos Wener daeth criw at ein gilydd yn Nhrevelin. Criw ifanc i ymarfer ychydig o Gymraeg, bwyta a chael hwyl. Ar y fwydlen roedd sushi, a phitsa i'r rhai nad oedd yn hoff o'r bwyd tramor. Roedd pawb yn cael hwyl yn ceisio defnyddio'r chopsticks, ac roedd hi'n ddoniol pan oedd darnau o sushi yn disgyn ac yn hedfan i ffwrdd. Nid oedd pawb yn siŵr iawn beth i feddwl am y wasabi, rhai yn hoff ohono ac eraill ddim yn hoffi'r ffordd oedd yn llosgi eu trwynau. Cawsom gwis bach ar y diwedd, gyda chwestiynau hawdd ac anodd. Roedd yn rhaid i ni feddwl yn galed ar ôl cael llond ein boliau o fwyd.

Gêm Cymru



Daeth criw at ei gilydd i wyllo gêm olaf y chwe gwlad, Cymru yn erbyn Ffrainc. Roeddem am wyllo'r gêm yn y Ganolfan yn Esquel ond oherwydd problemau technolegol aethon lawr y lon i'r YPF. Roedd hi'n rhyfedd gwyllo rygbi gyda choffi yn ein dwylo ac nid peint. Roedden yn eistedd ar ymyl ein cadeiriau, ac roedd hi'n anodd gwyllo weithiau oherwydd yr holl gyffro. Ond fel mae pawb yn gwybod ennill gwnaeth Cymru!!!

Munud i ennill



Cawsom lawer o hwyl yn chwarae 'Munud i Ennill' yn Esquel. Mae rhaglen yn yr Ariannin, 'Minuto Para Ganar', ble mae cystadleuwyr yn cael munud i gyflawni nifer o dasgau. Paratôdd Glenda Powell nifer o gemau hwyliog. Roedd rhai o'r tasgau yn cynnwys ysgrifennu geiriau Cymraeg gyda llythyren briodol a phosibl, cludo Rocklets gyda gweill, adeiladu tŵr cardia, a chwilio am bel gyda mwgwd. Fe wnaethom

fwynhau bwyta sglodion a bwrgeri cartref wrth chwarae'r gemau.

Gemau yn Nhrevelin



Daethom at ein gilydd yn yr Ysgol i gael cyfle i fwynhau yng nghwmni ein gilydd. Roedd pawb wedi dod a bwyd a diod gyda nhw, ac roedd pawb wedi mwynhau'r panchos a'r pizza. Braf oedd gweld y plant yn bresennol ac yn ymuno yn yr hwyl. Roedd hi'n anodd dweud pwy oedd yn oedolion a phwy oedd yn blant oherwydd roeddem oll yn actio'n wirion. Synnodd Pompa bawb gyda'i geirfa Cymraeg.

Cofiwch am weithgareddau wythnosol Menter:

Clwb Drama, Clwb Babanod, Clwb Darllen, Clwb Plant

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Iwan Madog : 2945 564726

Holi Hwn a Holi Llall

Pwy wyt ti?
Jessica Jones ydw i.

Gwarchod—cuidar
Ysgoloriaeth—beca
Bythgofiadwy—imposible olvidar
Arsylwi—observar
Rhagor—mas

Ble wyt t'n byw?

Dw i'n byw yn Nhrevelin, ond ces i fy magu ar y fferm gyda fy mrawd Leonardo sydd ger ysgol uwchradd amaethyddol Emeta. Roedden ni'n cael llawer o hwyl gydag ein gilydd pan roeddwn i'n fach. Mae e'n hŷn na fi. Roedden ni'n hoffi dringo'r coed yn y goedwig, beicio, chwarae ceir, chwarae pêl droed, nofio yn yr afon yn yr haf a physgota.

Pam benderfynaist ti ddysgu Cymraeg?

Penderfynais i ddysgu Cymraeg achos dw i'n dod o deulu Cymraeg ar ochor fy nhad, ond dydy e ddim yn siarad Cymraeg.

Sut ddysgaist yr iaith?

Yn 1999 dechreuais i ddysgu. Es i i Gymru dwywaith, y tro cyntaf roeddwn i wedi ceisio mynd i goleg Harlech. Derbyniais ysgoloriaeth, ond roedd rhaid i mi allu siarad Saesneg, felly anfonais i lythyr yn dweud do'n i ddim yn siarad Saesneg. Ar ôl misoedd derbynion ni llythyr yn yr ysgol gan ferch o Gymru oedd eisiau merch ifanc i weithio yn gwarchod ei phlentyn. Felly es i yn 2002 i Gaerdydd i edrych ar ôl y plentyn. Bues i yna am 10 mis, lle gwnes i'r Cwrs Wlpan, a ches i ysgoloriaeth i fynd i ddysgu rhagor o Gymraeg yn Llambled ar y cwrs preswyl (Pellach ac Uwch). Roedd y cwrs yn wych! Profiad bythgofiadwy. Ar ôl dod o Gymru dechreuais i weithio yn yr ysgol Gymraeg fel helpwraig a ro'n i'n gweithio mewn casino hefyd. Yn 2008 es i eto i Gymru, ond y tro yma i arsylwi dosbarthiadau mewn ysgol gynradd yn Llangyfi, 5 milltir o Llambled. Bues i yno am 2 fis. Yna symudais i i Gaerdydd am ddau fis arall, ble roeddwn yn arsylwi yn Ysgol y Berllan Deg ac mewn ysgol uwchradd hefyd. Dysgais i ragor o Gymraeg yn y Cwrs Meistrol i ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd y cwrs yn anodd, ond cefais gyfle i nabod llawer o bobl a theithio tipyn. Mae Cymru yn le pert iawn iawn!

Beth wnaethoch chi ar ôl dychwelyd?

Des i yn ôl i Drevelin. Priodais i gyda fy ngŵr a nawr mae mab gyda fi. Dewi ydy e, a dw i'n disgwyl babi arall, bydd e/hi yn cael ei eni/geni dechrau mis Medi.

Rwyd ti'n dysgu Cymraeg - Pwy wyt ti'n dysgu?

Dw i'n dysgu Cymraeg i'r plant nawr, mae dau grŵp gyda fi. Plant 10-12 oed a meithrin. Dw i'n dysgu dawnsio gwerin hefyd, dw i wrth fy modd gyda fy ngwaith. Mae'r plant yn wneud i mi deimlo'n hapus, mae'n nhw'n arbennig.

Ble hoffet ti fynd ar dy wyliau?

Hoffwn i fynd i Gymru eto, ond gyda fy nheulu.

Cofiwch Dawnsio Gwerin

Plant : Dydd Llun 19.30
Oedolion a'r Ardddegau : Dydd
Mawrth 20.30

Ysgol 57



Dewch i Ddarllen: Hunllef gan Manon Steffan Ros

Hanner awr wedi dau ac roedd y dref yn cysgu. Doedd dim smic o sŵn i'w glywed yn unman, dim ceir hyn yn oed, yn teithio ar hyd y stryd fawr. Roedd lampau'r stryd yn goleuo'r holl adeiladau'n oren,

Pobman yn dawel. Pobman yn llonydd.

Yn un o'r siopau, ar waelod y grisiau yn arwain i fyny i'r fflat uwchben, roedd ffigwr yn sefyll yn llonydd.

Doedd hi ddim yn hawdd gweld yr unigolyn bychan, main a safai yno fel delw.

Ac yna, cymerodd y ffigwr gam i fyny i'r gris nesaf.

Yn boenus o araf, gam wrth gam, symudodd i fyny'r grisiau. Gwnaeth ei thraed y sŵn siffrwd lleiaf wrth gamu ar y carped henffasiwn. Roedd yn cerdded yn ddifywyd, fel petai pob cam yn ymdrech fawr. Wrth gymryd y camau olaf fyny i'r landin, estynnodd ei llaw i gydio yn y canllaw.

Llaw grychog, denau, wen.

Wedi cyrraedd pen y grisiau, trodd y ffigwr at un o'r drysau ar y Landn - drws pren, a golwg wedi gweld dyddiau gwell arno.

Roedd ychydig mwy o olau yma a lamp y stryd yn goleuo'r ffigwr. Dynes oedd hi, dynes mewn côt hir, lwyd a'r hwd wedi'i dynnu'n dynn dros ei phen. Gwisgai sgert at ei phengliniau, a theits lliw te am goesau oedd bron mor fain ag esgyrn. Doedd ganddi ddim sgidiau am ei thraed, ac roedd twll fel 'O' fawr wedi'i rwygo yn ei theits.

Caeodd ei llaw am fwlyn y drws, a'i droi yn araf. Gwichiodd y drws ryw fymryn wrth ei agor.


Arhosodd y ddynes am rai munudau, yn gwyllo'r dyn yn anadlu'n drwm mewn cwsg tawel yn y gwely.

Dyn canol oed, a fyddai wedi edrych yn ŵr bygythiol petai o ddim yn cysgu'n drwm a'r ddillad gwely wedi'u lapio am ei goesau. Gan mai dim ond crys-T a thrôns a wisgai, roedd y tatŵs mawr Celtaidd i'w gweld yn amlwg ar ei freichiau a'i wallt wedi'i eillio'n dynn ar ei ben.

Mewn un symudiad annisgwyl o sydyn, chwipiodd yr hen ddynes ei hwd yn ôl a dangos ei phen a'i hwyneb. Yn y golau gwan roedd hi'n edrych yn sâl - ei gwallt gwyn yn teneuo a phatshys mawr moel yn amlwg. Trodd ei phen i gyfeiriad y dyn.

Roedd yr wyneb yn aflan a chanol ei llygaid enfawr yn fflachio'n las tywyll a'r gwyn o'u cwmipas yn fawr. Roedd ei gwefusau main yn llinell dynn uwchben gên fach benderfynol. Ei thymor oedd yn ei gwaed hi'n afiach - y gwylltineb yn y llygaid gwallgof, a'i hwyneb yn llawn casineb....

Smic - una pizca
Ffigwr—una forma
Main—delgado
Delw—imagen
Siffrwd—susurrar
Landin—donde llega la escalera
Canllaw- barra para la mano pare
ayudar subir la escalera
Crychog—arrugado
Gwichiodd—rechino
Mymryn—un poquitito
Chwipiodd—saco (abruptamente)
Moel—pelado
Aflan—terrible
Gwylltineb—rabia



Rhan o gyfres Stori Sydyn.
Prosiect [lythrennedd oe-dolion](#) yng [Nghymru](#) a [Lloegr](#) yw Stori Sydyn, neu Quick Reads yn [Saesneg](#), sy'n cynhyrchu cyfres o lyfrau byrion. Datblygwyd ar y cyd rhwng awduron, cyhoeddwy, addysgwyr, y [BBC](#) a chyrrff y llywodraeth. Mae gan y lyfrau hyd at 128 tudalen, maent wedi'u cynllunio er mwyn hybu darllen ymhlith pobl hŷn, a darllenwyr llai hyderus i ddarllen mwy. Perffath l chi ymarfer darllen!

DJoyce

tonfeydd - canales de radio
Hwyangerddi—rimas para ninos
Rhamantus—romantico
Diferyn - gota

Dyma fi ,yn barod i ddechrau'r rhaglen
"Cerddoriaeth Gymraeg", fel bob p'nawn
Sadwrn.

Ble?
Mewn "stiwdio" Radio Nacional Esquel ,o bump o'r gloch tan chwech.

Ers Pryd?
Wel, dw i wedi cael cyfle i neud y gwaith yma ers rhyw ddeg mlynedd, mwy neu lai. Mae llawer o ffrindiau wedi fy helpu pan o'n i ddim gallu gwneud y sioe, sef Romina Azzolini a Soraya Williams. Cyn hynny o'n i'n rhannu'r gyfrifoldeb efo Vernon Hughes. Cyn i ni ddechrau, roedd eraill yn neud y rhaglen, sef José Weber, Roy Roberts, Ariel Hughes. Felly...mae Cerddoriaeth Gymraeg wedi bod yn cael ei chlywed ar donfeydd radio Esquel ers nifer o flynyddoedd!

Sut dw i'n ddewis y caneuon??
Dwi'n dechrau'r rhaglen efo cerddoriaeth technolegol, roc tybed , digon o sŵn!! Wedyn dwi'n mynd ymlaen efo caneuon gwerin, neu hwiangerddi. Ar ôl hynny dwi'n chwilio am rywbeth fel baled, rywbeth rhamantus, caneuon cariad, ac ysgafn. Ac i orffen, dw i'n chwarae miwsig crefyddol. Dw i'n ceisio rhoi gwybodaeth am bob darn o gerddoriaeth, cyfansoddwr, neu fanylion am fywydau'r cerddorion.

Pwy sydd yn dilyn y rhaglen?
Llawer o bobl, gobeithio!!!. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw efo cysylltiad Cymreig , ond dw i'n gwybod bod 'na eraill heb ddiferyn o waed Cymreig yn mwynhau clywed yr iaith. Corau pedwar llais mae pobl yn eu mwynhau fwyaf.

Hoffwn DDIOLCH o galon , i fy ffrindiau sydd wedi benthyg eu CDs , ac i gwmni Sain sydd yn gyrru rhai fel anrheg bron bob blwyddyn!! Diolch , hefyd, i Gymdeithas Gymraeg Esquel am gefnogi fy nghyfnod.




Cofiwch rhaglen Joyce

17.00 - 18.00

Bob Prynhawn Sadwrn

Ar Nacional Esquel

Croesair Y Gegin



I LAWR

1. ajo
2. cucharon
3. cordero
4. repasador
5. amasar
6. hornear (pan)

AR DRAWS

1. congelador
2. cajón
3. pava
4. tacho
5. café
6. microonda

Cofiwch fod, ch, dd, ff, ll,, rh, th yn un llythyren.

Gwasanaethau yn yr Andes

Cynhalion ni gwrdd Diolchgarwch yng nghapel Bethel y Cwm, Dydd Sul 29 o Ebrill, roedd Lois Dafydd am fod yn bresennol ond yn anffodus roedd hi'n sâl a ddim yn gallu bod yno, Roedd Lois yn ddigon caredig i ni ddefnyddio ei phregeth, a oedd yn un diddorol ac addysgol.

Daeth Alwen Green a ffrwythau ffres o'r ffarm, a oedd yn cynnwys cwinsis ac afalau, Lizzie Lloyd a siwgr a Cristin Jones a jam yn y sedd fawr, Roedd eraill wedi dod a rhywbeth melys i fwynhau yn y te oedd yn dilyn y gwasanaeth. Blasus iawn oedd y cacenni ond yn fwy na dim roedd pawb wedi mwynhau'r bara menyng gyda jam cartref

Y dydd Sul canlynol, gwnaethon ni gynnal Cwrdd Diolchgarwch a Choffa Aur Roberts (Llanuwchllyn) yn Esquel, Daeth Arturo a Rosa Lowndes a blodau hyfryd o'r ffarm. Bu Alejandro Jones yn canu emyn 'Rhys', a darllenodd Cristin eiriau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan Penry Jones yn y gwasanaeth yng Nghymru, a Joyce eiriau Hazel Evans. Roedd yn wasanaeth teilwng iawn i Aur Roberts.

Mwynheais i bregethu am fy nhro cyntaf erioed yng nghapel Seion Esquel. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan a helpu yn y gwasanaethau. Edrychaf ymlaen at y gwasanaethau sydd i ddod yn Nhrevelin ac yn Esquel.

Isaías Grandis

Cofiwch am wasanaethau


Capel Bethel - Dydd Sul 27 o fis Mai

Seion Esquel - Dydd Sul 3 o fis Gorffennaf



Cornel Plant

Lliwiwch Pepa Pinc ar y Cyfrifiadur



Cystadleuaeth

Atebwch y cwestiynau, gwnewch lun o anifail yn y bwloch a rhowch yr atebion i Iwan er mwyn ennill gwobr

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Pa liw wyt ti yn hoffi?

Pa liw ydi sebra?